# Ffilmiau Naratif Gweithredu
# Byw ac Animeiddiedig
# Ffurflen Gais Am Gyllid Cynhyrchu

Dim ond os mai chi yw'r prif gynhyrchydd a deiliad hawliau'r prosiect y dylech lenwi'r ffurflen gais hon, a'ch bod wedi darllen ein canllawiau ar gyllid cynhyrchu. Os oes angen datblygu eich prosiect ymhellach cyn cyflwyno fel cynnig buddsoddi, yna dylech gael golwg ar ein Cyllid Datblygu, neu ein rhaglenni ariannu Rhwydwaith BFI Cymru, yn dibynnu ar lefel eich profiad.

| | |
|---|---|
| Ni fyddwch yn gallu llenwi'r ffurflen gais hon yn gywir nes eich bod wedi darllen y canllawiau ar Gyllid Cynhyrchu ac rydym yn eich cynghori i droi'n ôl atynt wrth i chi lenwi'r ffurflen. Cadarnhewch eich bod wedi darllen ein canllawiau. | ☐ |

## Eich cais am gyllid

| | |
|---|---|
| Faint o gyllid ydych chi'n gofyn amdano gan Ffilm Cymru mewn GBP? | £ |
| Dyddiad y cais: | |

## Amdanoch Chi

| | |
|---|---|
| Enw'r Ymgeisydd | |
| Enw'r Cwmni | |
| Dolen i gofnod Tŷ'r | |
| Dolen i IMDB Tŷ'r | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |

| | |
|---|---|
| Rhif Ffôn | |
| Cyfeiriad E-bost | |
| Gwefan | |
| Nifer y prosiectau hyd llawn rydych wedi arwain arnynt sydd wedi'u rhyddhau mewn sinemâu drwy ddosbarthwr | |

## Ynglŷn â'ch Prosiect

| | |
|---|---|
| Teitl y Prosiect: | |
| Crynodeb (dim mwy na 200 gair) | |
| Genre(s) a'r math o gynhyrchiad (animeiddiedig, dogfen neu weithredu byw): | |
| Ym mha iaith/ieithoedd mae eich prosiect? | |

| | |
|---|---|
| A yw'r prosiect yn seiliedig ar eiddo deallusol presennol (e.e. nofel, drama neu bodlediad)? *Ydych chi'n berchen ar, neu yn y broses o gael, yr hawliau (gan gynnwys unrhyw hawliau sylfaenol) yn y prosiect?* *Os ydyw, rhowch ddolen i'r eiddo deallusol hwn a nodwch statws eich cytundebau opsiynau.* | |
| A yw'r prosiect wedi'i strwythuro fel cydgynhyrchiad rhyngwladol? *Os felly, nodwch â pha wledydd a chwmnïau ac a ydynt wedi'u cadarnhau.* | |

## Eich Tîm Craidd

Nodwch a ydynt yn preswylio yng Nghymru a/neu wedi'u geni yng Nghymru. Rhowch fanylion cyswllt a gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi dolen i'r IMDB neu CV ar-lein proffesiynol arall. Os oes mwy nag un person mewn un rôl, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi eu holl wybodaeth. Nid oes angen i chi roi manylion cyswllt y cast.

| Tîm Craidd | Enw | Dolen Imdb / Proffil Talent Arall | Cydnabyddiaeth Broffesiynol Berthnasol Ddiweddaraf | Cyswllt Â Chymru |
|---|---|---|---|---|
| Awdur(on) | | | | |
| Cynhyrchydd/wyr | | | | |
| Cyfarwyddwr/wyr | | | | |
| Cynhyrchydd Gweithredol | | | | |
| Cyd-gynhyrchydd/wyr | | | | |
| Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth | | | | |
| Golygydd | | | | |
| Rheolwr Cynhyrchu | | | | |
| Cyfarwyddwr Cynorthwyol 1af | | | | |
| 2il Gyfarwyddwr Cynorthwyol | | | | |
| Cast Allweddol | | | | |

## Creadigol

| Datganiad yr Awdur: Pam ydych chi eisiau adrodd y stori hon? Beth yw eich dylanwadau creadigol? Sut mae'r prosiect hwn yn cydweddu â'ch uchelgeisiau ehangach / llechen o syniadau? |
|---|
| |

| Datganiad y Cynhyrchydd: Pam ydych chi eisiau adrodd y stori hon? Sut mae'r prosiect hwn yn cydweddu â'ch cynllun busnes / llechen o syniadau? |
| --- |
| |

| Datganiad y Cyfarwyddwr (os yw'n wahanol i'r awdur): Pam ydych chi eisiau adrodd y stori hon? Beth yw eich dylanwadau creadigol? Sut mae'r prosiect hwn yn cydweddu â'ch uchelgeisiau ehangach / llechen o syniadau? |
| --- |
| |

## Y Buddion I Gymru

| | |
|---|---|
| Beth yw eich amcangyfrif o wariant yng Nghymru?<br>*Mae gwariant yng Nghymru yn cael ei ddiffinio fel costau yng Nghymru e.e. costau cynhyrchu ac ati, a gwariant uniongyrchol i dalent uwchlaw'r llinell o Gymru. Byddwch yn realistig wrth amcangyfrif fan yma. Mae elfennau o'n cyllid sy'n galw am gyfrifiad gwariant ac er mwyn eich cynghori ar y camau nesaf, bydd arnom angen ffigwr mor gywir â phosibl.* | |
| Costau uwchlaw'r llinell | £ |
| Costau islaw'r llinell | £ |
| Amcangyfrif o nifer i criw | |
| Nifer yr hyfforddeion<br>*Mae gofyn i bob prosiect y buddsoddwn ynddo gynnal pedwar i chwech o hyfforddeion, sy'n seiliedig yng Nghymru os yw'r cynhyrchiad yn ffilmio yng Nghymru, a gallai un o'r rhain fod yn gyfle cysgodi i wneuthurwr ffilm newydd a datblygol sydd ar un o'n llechi ar hyn o bryd.* | |

## Amerlenni a Logisteg

| | |
|---|---|
| Dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyn-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu a sawl wythnos i bob un | Cyn-gynhyrchu: dyddiadau o/i (sawl wythnos)<br>Cynhyrchu: dyddiadau o/i (sawl wythnos)<br>Ôl-gynhyrchu: dyddiadau o/i (sawl wythnos) |
| Dyddiad cyflenwi targed | Mis/Blwyddyn |
| Cyfanswm nifer y diwrnodau ffilmio | |
| Cyfanswm nifer y criw | |

| | |
|---|---|
| Prif leoliadau | |
| Ystyriaethau o ran amserlen: | |

| Ymhelaethwch ar y cast a’r penaethiaid adran yr hoffech eu penodi a pham: |
|---|
| |

Ffilm CYMRU WALES

| Ymhelaethwch ar lif gwaith y cynhyrchiad, y lleoliadau a’r partneriaid.<br>*Cyfeiriwch at unrhyw gymhlethdod penodol gan gynnwys argaeledd cast/criw a chynlluniau wrth gefn mewn perthynas â COVID-19.* |
| --- |
| |

**Cyllideb**

| Oes unrhyw beth yr hoffech ddweud wrthym am eich cyllideb? *Gallai hyn gyfeirio at linellau penodol yn y gyllideb, gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â chostau Covid neu fanylion am ohirio taliadau. Caiff ei argymell eich bod yn darparu naratif i'r gyllideb yn ychwanegol at atodi cyllideb gynhyrchu lawn.* |
| --- |
| |

## Cynllun Ariannu

Rhowch amlinelliad o'ch cynllun ariannu ar gyfer y prosiect hwn ac unrhyw fuddsoddiad blaenorol rydych chi wedi'i dderbyn yn y prosiect. Mae'r tabl isod wedi'i ddylunio fel canllaw ac ni fydd pob math o gyllid yn berthnasol.

| Math o Gyllid | Cyllidwr / Ariannwr | Swm (£) | Statws (heb ei gadarnhau, llythyr mynegi bwriad, llythyr cynnig ac unrhyw fanylion perthnasol eraill) |
|---|---|---|---|
| Loteri (e.e. BFI, Creative Scotland, Screen Ireland etc.) | | | |
| Cydgynhyrchu | | | |
| Ecwiti Preifat | | | |
| Cyllid Mesanîn | | | |
| Cyllid Llenwi Bwlch | | | |
| Cyllid Grant | | | |
| Cyn Gwerthiant | | | |
| Ar ôl Taro Bargen | | | |
| Credyd / Cymhelliant / Lloches Treth | | | |
| Gohirio Taliadau | | | |
| Arall | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm (rhaid iddo fod yn hafal i'r gyllideb a nodwyd) | | | |

| Ymhelaethwch ar eich strategaeth i ariannu'r prosiect. |
|---|
| |

## Cynulleidfa a Chyrhaeddiad

| |
|---|
| **Rhowch drosolwg o'r gynulleidfa ar gyfer y prosiect a pha strategaethau y bwriadwch eu rhoi ar waith i gyrraedd neu dyfu'r gynulleidfa hon.**<br><br>Os yw'r prosiect yn seiliedig ar eiddo deallusol presennol, dylech hefyd roi manylion y gynulleidfa 'barod' gan ddefnyddio ffigurau gwerthiant, ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall |
| |

| |
|---|
| Rhowch drosolwg o'r asiantau gwerthu, dosbarthwyr, gwyliau a phartneriaid eraill y bwriadwch gysylltu â nhw a sut y bwriadwch osod y ffilm yn y farchnad, gan gyfeirio at dair ffilm gymaradwy ddiweddar o Brydain a'u perfformiad. |
| |

| |
|---|
| Rhowch drosolwg o'ch cynhyrchiad diwethaf os yw'n berthnasol e.e. cyllideb a refeniw, gwybodaeth am ei rhyddhau a'r partneriaid. |
| |

## Cynllun Cynaliadwyedd

Mae’n ofynnol gennym bod pob cynhyrchiad a ariannwn yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac arloesedd busnes ehangach. Rhaid i bob cynhyrchiad, er enghraifft, gynnal hyfforddeion, gwrthbwyso carbon, darparu deunyddiau mynediad mewn perthynas ag anabledd, a monitro amrywiaeth eu cast a'u criw.

Yn ogystal â hyn, rydym am gefnogi cynhyrchwyr i fynd yr ail filltir er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y sector sgrin yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda chi i ddatblygu Cynllun Cynaliadwyedd sy'n unigryw i'ch cynhyrchiad. Efallai y cynigwn hyd at £25,000 o arian grant na fydd yn ad-daladwy er mwyn cefnogi cynlluniau a allai gael effaith sylweddol ar y sector ffilm yng Nghymru. Drwy wahoddiad yn unig y byddwn yn derbyn ceisiadau am gyllid Cynllun Cynaliadwyedd a dim ond at gostau’r Cynllun Cynaliadwyedd, a gytunir gan eich cynhyrchydd gweithredol yn Ffilm Cymru, y gall y cyllid gael ei ddefnyddio.

Rydym yn disgwyl i’r cynhyrchwyr ystyried sut mae pob maes yn croestorri. Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu eich bod eisiau canolbwyntio ar raglen hyfforddi uchelgeisiol, gan fynd uwchlaw’r niferoedd gofynnol o hyfforddeion, ond byddai'n allweddol plethu ystyriaethau amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant i'r cynllun hwnnw (er enghraifft drwy ystyried recriwtio’n lleol a sicrhau bod hysbysebion swyddi wedi’u hysgrifennu mewn iaith glir).

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

| Dwedwch wrthym ni sut y gallech chi gyfyngu ar effaith amgylcheddol y ffilm hon gan ystyried elfennau fel teithio a’r defnydd o ddeunyddiau (dim mwy na 500 gair) Gallwch ddarllen Cynllun Cymru Werdd Ffilm Cymru fan yma. |
| --- |
| |

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

| Disgrifiwch sut rydych yn bwriadu cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth weithio ar y prosiect hwn, gan ystyried prosesau yn ogystal â chynrychiolaeth, fel y ffordd y gallech gastio, cyflogi, rhedeg y cynhyrchiad, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol. Rhowch fanylion ynglŷn â sut y bwriadwch recriwtio i'r rolau, gan gynnwys hyfforddeion fel sydd wedi'i amlinellu isod.<br>(dim mwy na 500 gair) Gallwch ddarllen [Cynllun Gweithredu Ffilm Cymru ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fan yma.]() |
| --- |
| |

## Sgiliau a Hyfforddiant

| Disgrifiwch y cyfleoedd hyfforddiant ar eich ffilm. *Rhowch fanylion unrhyw gyfleoedd cysgodi ychwanegol ar gyfer awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr o Gymru ar lechen Ffilm Cymru. (dim mwy na 500 gair)* |
| --- |
| |

## Entrepreneuriaeth

| |
|---|
| Mae gennym ddiddordeb mewn clywed sut y gall y ffilm hon helpu i ddatblygu model busnes eich cwmni a sut y gallech brofi a meithrin y gynulleidfa ar ei chyfer. *Disgrifiwch unrhyw gynlluniau dichonol sydd gennych i fanteisio ar eiddo deallusol ategol, fel asedau addysgiadol neu waith sy'n deillio o'r gwaith sylfaenol; gwaith datblygu cynulleidfa, fel darlleniadau sgript, yn enwedig mewn cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol; a/neu strategaethau effaith ar gyfer hunan-ryddhau neu ddulliau hybrid lle mae galw clir am hynny. (dim mwy na 500 gair)* |
| |

| Cyfeiriwch at bartneriaid a allai eich helpu i gyflawni'r cynlluniau hyn a sut y gallent eich helpu i feithrin eich cynulleidfa.<br>(dim mwy na 500 gair) |
| --- |
| |

# Rhestr Wirio'r Cais

| Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r holl wybodaeth / dogfennau ategol canlynol er mwyn cwblhau eich cais am gyllid: | |
|---|---|
| Sgript | ☐ |
| Cyllideb gynhyrchu lawn, gyda'r gwariant yng Nghymru wedi'i nodi'n glir, wedi'i llywio drwy adolygu gofynion y gyllideb sydd i'w gweld yng nghanllawiau FfCW, fel costau cyfreithiol FfCW, hyfforddeion a gofynion mynediad mewn perthynas ag anabledd. Rydych yn cadarnhau eich bod wedi cynnwys y canlynol yn eich cyllideb:<br>• O leiaf y cyflog byw cenedlaethol i'r criw<br>• O leiaf cyfraddau sylfaenol Ecwiti i'r cast<br>• 4-6 o hyfforddeion neu gyfleoedd cysgodi, talu ardoll sgiliau o o leiaf 0.5% o'ch gwariant craidd yn y DU, monitro amrywiaeth a chynhwysiant eich cast a'ch criw a gwrthbwyso carbon er mwyn bodloni ardystiad Albert.<br>• Clirio pob hawl yn y prosiect ledled y byd ym mhob cyfrwng am byth ( ac eithrio'r symiau hynny sy'n ddyledus mewn perthynas â hawliau perfformio cerddoriaeth yn gyhoeddus)<br>• Ad-dalu unrhyw gyllid Gorwelion neu Ddatblygu Ffilm Cymru (os yw'n berthnasol<br>• Ffioedd cynhyrchydd/cynhyrchu yn gymesur â'r gyllideb arfaethedig (gweler mwy isod)<br>• Pob yswiriant cynhyrchu arferol (gan gynnwys gwallau a hepgoriadau) a bydd gofyn i FfCW gael ei enwi fel un ychwanegol sydd wedi'i yswirio<br>• Deunyddiau cyflenwi i Ffilm Cymru, gan gynnwys deunyddiau mynediad mewn perthynas ag anabledd, a rhaid i gostau'r rhain gael eu cynnwys yng nghyllideb y cynhyrchiad.<br>• Deunyddiau cyflenwi digonol i'w darparu i asiantau gwerthu rhyngwladol a phob partner ariannu arall gan gynnwys darparu ar gyfer deunyddiau isdeitlo meddal a sainddisgrifio mewn sinemâu ac ar unrhyw fideo-ar-alw, DVD neu ddisg Bluray o'r cynhyrchiad a gaiff ei rhyddhau<br>• Deunyddiau cyhoeddusrwydd, lluniau llonydd a chlipiau digonol<br>• Ardoll sgiliau FfCW o 0.5% o wariant craidd yn y DU oni bai bod ariannwr arall yn galw am ardoll ScreenSkills<br>• Darpariaeth gwrthbwyso carbon gorfodol o o leiaf 0.1% o gyfanswm y gyllideb er mwyn bodloni ardystiad Albert<br>• Neilltuo digon ar gyfer costau cyfrifyddu ac archwilio gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â'r archwiliad terfynol a chredyd treth y DU<br>• Costau iechyd a diogelwch Covid<br>• Uwch-Gronfa Wrth Gefn ar wahân ar gyfer Covid o 2.5% o gostau uniongyrchol y cynhyrchiad<br>• Costau cyfreithiol digonol ar gyfer y cynhyrchiad a'r arianwyr<br>• Yr holl gostau ariannu<br>• Fel arfer bydd disgwyl i chi fod â gwarant cwblhau yn ei le ar gyfer eich cynhyrchiad<br>• Cronfa wrth gefn o 10% o'r costau islaw'r llinell<br>• Ad-daliad rhannol o ffioedd cyfreithiol a chyfrifyddu. Dyma ganllaw ar hyn:<br>• Cyllidebau hyd at £500,000 - £5,500<br>• Cyllidebau hyd at £1,000,000 - £8,800<br>• Cyllidebau rhwng £1,000,000 a £1,500,000 = £13,750<br>• Cyllidebau hyd at £2,000,000 - £16,500<br>• Cyllidebau dros £2,000,000 – fel a gynghorir | ☐ |

| | |
|---|---|
| Amserlen ddrafft y cynhyrchiad | ☐ |
| Lookbook, rîl naws neu ddogfen gyfeirio weledol arall | ☐ |
| Dolen i'r gwaith diweddaraf a gwblhawyd gan y cyfarwyddwr (gwnewch yn siŵr bod y ddolen hon yn parhau ar agor am 8 wythnos ar ôl eich cais) | ☐ |
| Unrhyw Lythyr Mynegi Bwriad neu gadarnhad ysgrifenedig o arian a gadarnhawyd yng nghorff y cais neu asiant gwerthu sy'n gysylltiedig â'r prosiect | ☐ |
| Amcanbrisiau asiant gwerthu (os ydynt ar gael) | ☐ |
| UK Subsidy Control Declaration Form | ☐ |

Ni fydd eich cais yn gyflawn hyd nes bod yr holl eitemau hyn wedi'u darparu. Rydym hefyd yn gofyn i'r ymgeiswyr ddarparu copi o Bolisi Cynaliadwyedd eu cwmni, os yw ar gael.

| |
|---|
| Os byddai'n well gennych gyflwyno dolen i safle Dropbox neu safle storio arall ar-lein ar gyfer eich holl ddogfennau, rhowch y ddolen a'r cyfrinair fan yma. |
| |

## Datganiadau a Diogelu Data

Rydym drwy hyn yn cadarnhau, datgan a gwarantu bod yr wybodaeth ganlynol yn wir a chywir hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred heddiw:

1. Nad oes symiau'n daladwy, dyledus a heb eu talu i Ffilm Cymru mewn perthynas ag unrhyw brosiectau y mae'r cwmni hwn neu unrhyw un o'i gwmnïau cysylltiedig (yn gyfunol, 'y Cynhyrchydd') wedi derbyn cyllid ar eu cyfer oddi wrth Ffilm Cymru; a/neu unrhyw brosiectau sydd bellach yn eiddo i'r Cynhyrchydd neu'n cael eu rheoli gan y Cynhyrchydd lle mae trydydd parti yn derbyn cyllid oddi wrth Ffilm Cymru (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i symiau'n daladwy ar ffurf ad-dalu benthyciadau datblygu mewn perthynas â phrosiectau sydd wedyn wedi'u cynhyrchu) o dan unrhyw gytundeb, cynllun neu fenter;
2. Bod Ffilm Cymru wedi cael yr adroddiad gwerthiant mwyaf cyfredol a diweddar ar gyfer pob prosiect a gynhyrchwyd neu a gyd-gynhyrchwyd gan y Cynhyrchydd sy'n derbyn cyllid gan Ffilm Cymru y mae gan Ffilm Cymru hawl i gyfran o'r refeniw ar eu cyfer; ac
3. Ym mhob ystyriaeth arall, bod y Cynhyrchydd yn cydymffurfio'n llwyr â phob cytundeb y mae'n mynd iddi â Ffilm Cymru (gan gynnwys cyflenwi pob deunydd sydd i'w gyflenwi'n gontractiol i Ffilm Cymru erbyn y dyddiad cyflenwi contractiol).

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi darllen a deall yr uchod, ac rwy'n cadarnhau. | ☐ |

Bydd Ffilm Cymru yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn y ffurflen gais hon i helpu i brosesu eich cais. Gallai'r wybodaeth hon gael ei chadw ar gyfrifiadur a gallai gael ei defnyddio at ddibenion ystadegol. Gallai'r wybodaeth gael ei storio, ei phrosesu a'i throsglwyddo neu'i rhannu'n gyfrinachol ag unigolion neu sefydliadau sy'n ein helpu i asesu ceisiadau neu fonitro cyllid. Caiff pob gwybodaeth ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a darpariaethau cyfreithiol cysylltiedig yn ymwneud â diogelu data. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth y mae Ffilm Cymru yn ei dal yn ei gofnodion. Mae hefyd gennych yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i Ffilm Cymru

gywiro unrhyw anghywirdebau yn eich gwybodaeth. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein Polisi Preifatrwydd.

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi darllen a deall yr uchod, ac rwy'n cadarnhau. | ☐ |

Cadarnhaf fod yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu yn y cais hwn, ac mewn unrhyw wybodaeth a gyflwynir i'w chefnogi, yn wir a chywir. Cadarnhaf fod pob cais arall i ddosbarthwyr dyfarniadau Loteri eraill wedi'i ddatgan. Ymgymeraf i hysbysu Ffilm Cymru yn llawn ac ar unwaith o unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar y cais hwn neu ddeunyddiau cysylltiedig. Cadarnhaf fod gennyf yr awdurdod i wneud y cais hwn ar ran y sefydliad sy'n ymgeisio.

| | |
|---|---|
| Rwyf wedi darllen a deall yr uchod, ac rwy'n cadarnhau. | ☐ |

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Llofnod | |
| Swydd | |
| Dyddiad | |

| | |
|---|---|
| Cyd-lofnod:<br>*(Os yw'n ofynnol gan bolisi'r cwmni neu gytundeb hawliau neu os yw'n gyd-gynhyrchiad* | |
| Enw | |
| Teitl Swydd | |
| Dyddiad | |

| | |
|---|---|
| Ticiwch y bocs hwn os hoffech dderbyn e-byst ynglŷn â chyfleoedd cyllido a hyfforddiant tebyg oddi wrth Ffilm Cymru Wales. | ☐ |

## Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar eich prosiect cyn ymgeisio, cysylltwch â:


Bizzy Day
Swyddog Gweithredol Cynhyrchu
bizzy@ffilmcymruwales.com